# Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru

## Cofnodion (WRMI(3)-03-08)

**Dyddiad: 18 Tachwedd 2008**
**Amser: 9.02am - 9.48am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates, Maldwyn
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Sarah Beasley, Clerc
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Carys Jones, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Tystion

Gwyn Howells, Prif Weithredwr, Hybu Cig Cymru
Rees Roberts, Cadeirydd, Hybu Cig Cymru
Don Thomas, Prif Weithredwr, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf
Richard Howells, Cadeirydd, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau. Bu i Brynle Williams ddatgan buddiant fel ffermwr sy'n talu ardoll, a Mick Bates fel aelod o fusnes ffermio sy'n talu ardollau.

### Eitem 2: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 - Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gwyn Howells, Prif Weithredwr, a Rhys Roberts, Cadeirydd, Hybu Cig Cymru; a Don Thomas, Prif Weithredwr, a Richard Howells, Cadeirydd, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach i'r pwyllgor a ffigurau ynghylch da byw a ddeuir i mewn i Gymru i gael eu lladd o gymharu â da byw sy'n cael eu hallforio er mwyn eu lladd.

#### Cyfarfodydd yn y dyfodol

Mae Rheol Sefydlog 10.37(vi) yn darparu y caiff pwyllgor:

'benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson'.

Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi), i wahardd y cyhoedd o unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol a fyddai'n trafod materion allweddol a'r adroddiad drafft.